*This document is available in English* **Eitem Agenda 12**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **19 Ionawr 2026** |
| Swyddog Arweiniol | **PSTC Justin Evans** |
| Swyddog Cyswllt | **Chris Dinwoodie, Rheolwr Datblygu Sefydliadol** |
| Pwnc | **Asesiad Perfformiad Blynyddol, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2024/25** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Cyflwyno'r Adroddiad Asesu Perfformiad Blynyddol ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) yn 2024/25, ac i geisio cymeradwyaeth i'w gyhoeddi yn unol ag ymrwymiadau statudol a sefydliadol.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'r Adroddiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Blynyddol ar gyfer 2024/25 yn rhoi trosolwg o'r cynnydd a wnaed yn erbyn Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant pum mlynedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth). Mae'n dangos sut mae'r Gwasanaeth wedi parhau i ymgorffori cynhwysiant yn ei ddiwylliant sefydliadol, wedi gwella amrywiaeth y gweithlu, ac wedi darparu gwasanaethau cynhwysol i gymunedau.

3 Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at waith partneriaeth a wnaed a chamau a gymerwyd mewn ymateb i'r Adolygiad Annibynnol o'r Diwylliant, gan atgyfnerthu ein hymrwymiad i greu gweithle lle gall pawb ffynnu.

## ARGYMHELLIAD

4 Argymhellir bod Aelodau yn:

**i) Cymeradwyo cyhoeddi Adroddiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Blynyddol 2024/25 ar wefan y Gwasanaeth.**

## CEFNDIR

5 Yn 2024, lansiodd y Gwasanaeth Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant pum mlynedd er mwyn cefnogi cyflawniad y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol, i gyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol, a chynnal gwerthoedd sefydliadol. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar bedwar nod allweddol: ymgorffori cynhwysiant mewn diwylliant sefydliadol; denu, recriwtio a chadw pobl dalentog; darparu gwasanaethau cynhwysol i gymunedau; a datblygu partneriaethau effeithiol.

6 Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi crynodeb o’r cynnydd a wnaed yn ystod 2024/25, a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r adroddiadau Monitro Cydraddoldeb a Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau.

**GWYBODAETH**

7 Yn ystod 2024/25, cyflwynodd y Gwasanaeth fodiwlau hyfforddi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd, gan gynnwys rhagfarn ddiarwybod ac ymwybyddiaeth o awtistiaeth, a buon nhw’n monitro cydymffurfiaeth â dysgu gorfodol. Fe wnaeth rhwydweithiau staff gyflwyno ystod eang o ymgyrchoedd a digwyddiadau codi ymwybyddiaeth, a chynhaliwyd Cynhadledd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ‘Ignite’ gyntaf y gwasanaeth i ysbrydoli ac i addysgu cydweithwyr.

8 Gwellwyd prosesau recriwtio trwy fentrau gweithredu cadarnhaol. Arweiniodd hyn at well cynrychiolaeth o fenywod ac amrywiaeth ethnig ar draws y gweithlu. Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi darparu cymorth wedi'i deilwra i staff niwroamrywiol a rhoi addasiadau rhesymol ar waith i hyrwyddo cynhwysiant.

9 Yn allanol, cynhaliodd y Gwasanaeth dros 20,000 o Wiriadau Diogel ac Iach gydag aelodau o'r gymuned sy’n agored i niwed, ymwelodd â 133 o ysgolion, ac ymgysylltodd â grwpiau cymunedol amrywiol i hyrwyddo diogelwch tân a chynhwysiant. Cryfhawyd partneriaethau trwy gymryd rhan weithredol mewn fforymau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant cenedlaethol a rhanbarthol, a dechreuodd y paratoadau ar gyfer ail-achredu Lefel 2 Hyder Anabledd a statws Autism Accepting.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Cefnogi gweithlu mwy cyfartal a chynhwysol sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). |
| Cyllideb | Dim goblygiadau ariannol uniongyrchol y tu hwnt i ymrwymiadau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant presennol. |
| Cyfreithiol | Cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r rheoliadau cysylltiedig. |
| Staffio | Atgyfnerthu ymrwymiad i arferion recriwtio, dilyniant a chadw teg. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant; adroddiad ar gael yn ddwyieithog. |
| Risgiau | Byddai methu â chyhoeddi yn peryglu enw da a pheidio â chydymffurfio ag ymrwymiadau tryloywder. |